

# Mab sâl y swyddog


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Pan ddaeth tad pryderus at Iesu a gofyn iddo ddod i'w gartref i iacháu ei fab oedd yn sâl, yr eiliad honno fe wnaeth y bachgen wella.



Roedd yna ddyn pwysig ac roedd ei fab yn ofnadwy o sâl. Clywodd y dyn hwn fod Iesu yn y pentref cyfagos ac aeth i ofyn iddo ddod i'w gartref i wella ei fachgen.




"Iesu, mae fy mab yn sâl ofnadwy. Tyrd i'm cartref a gwna wyrth. Os y doi di i'w weld mi fedri di wella fy mab, cyn y bydd yn rhy hwyr," wylodd y dyn.



"Dos adre, fe fydd dy fab yn well. Dydw i ddim angen dod i dy dŷ. Yn unig creda yn yr hyn rydw i'n ei ddweud wrthyt ti." Un o'r gloch y prynhawn oedd hi pan ddywedodd Iesu hyn.



Rhuthrodd y dyn adref. Roedd o'n credu'n wirioneddol fod Iesu wedi gwella ei fab a bod yr hyn roedd Iesu wedi ei ddweud wrtho'n wir.



Pan gyrhaeddodd ei gartref gwelodd ei fab yn sefyll wrth y drws! Doedd o ddim yn sâl bellach. Roedd y dyn mor hapus i weld ei fab.



"Faint o'r gloch wnest ti deimlo'n well?" gofynnodd y tad i'w fab. "Roedd hi'n un o'r gloch pan yn sydyn fe deimlais i'n iawn. Wnes i godi o fy ngwely ac mi oeddwn i'n teimlo'n holliach!" atebodd y bachgen.



Roedd y dyn mor llawen. Credodd yn Iesu â'i holl galon a dywedodd wrth bawb fel roedd Iesu wedi gwella ei fab heb hyd yn oed dod i mewn i'w gartref i weld y bachgen.